O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2018 Rhif 1223 (Cy. 251)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 23, Rogiet i Ffin Cymru/Lloegr, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau, Caniatáu Traffig ar y Llain Galed a Therfyn Cyflymder 50 MYA Dros Dro) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *23 Tachwedd 2018* |
| *Yn dod i rym* | *1 Rhagfyr 2018* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Drafford yr M4, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 23, Rogiet i Ffin Cymru/Lloegr, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau, Caniatáu Traffig ar y Llain Galed a Therfyn Cyflymder 50 MYA Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 1 Rhagfyr 2018.

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2) neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 1 Rhagfyr 2018 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y draffordd" ("*the motorway*") yw Traffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

---

**(2)** Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p.22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

**Gwaharddiadau a Chyfyngiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, ar y darn o'r draffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy'n 2.5 o fetrau o led neu fwy, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd o'r fath fynd, i unrhyw lôn nac ar unrhyw lôn ac eithrio lôn chwith y darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

**Atal Dros Dro**

**6.** Mae darpariaethau rheoliad 3 o Reoliadau Traffig Traffyrdd (Terfyn Cyflymder) 1974(**3**), i'r graddau y maent yn gymwys i'r darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 3, wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 5 yn weithredol.

**7.** Mae darpariaethau rheoliad 5 o Reoliadau Traffig Traffyrdd (Cymru a Lloegr) 1982(**4**) a darpariaethau rheoliad 9 o'r Rheoliadau hynny sy'n ymwneud â gyrru cerbydau wedi eu hatal dros dro i'r graddau y maent yn gymwys i lain galed y darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn a chyfarwyddir traffig i ddefnyddio'r llain galed.

**Cymhwyso**

**8.**—(1) Nid yw'r gwaharddiad a'r cyfyngiad yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

---

(**3**) O.S. 1974/502
(**4**) O.S. 1982/1163

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**9.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 23 Tachwedd 2018

*Richard Morgan*
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darn o'r brif gerbytffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 23 hyd at bwynt 740 o fetrau i'r dwyrain o ganol y bont dros y rheilffordd i Gyffordd Twnnel Hafren (ffin orllewinol y consesiwn).

### ATODLEN 2
### Cyfyngu ar Led Cerbydau a Chaniatáu Traffig Dros Dro ar Lonydd Culion 1, 2 a 3

Y darn o'r brif gerbytffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o bwynt 740 o fetrau i'r dwyrain o ganol y bont dros y rheilffordd i Gyffordd Twnnel Hafren (ffin orllewinol y consesiwn) hyd at bwynt 100 metr i'r dwyrain o bont Caldicot Road y B4245.

Y darn o'r brif gerbytffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt 300 metr i'r dwyrain o bont Caldicot Road y B4245 hyd at bwynt 740 o fetrau i'r dwyrain o ganol y bont dros y rheilffordd i Gyffordd Twnnel Hafren (ffin orllewinol y consesiwn).

### ATODLEN 3
### Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro

Y darn o'r brif gerbytffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o bwynt 740 o fetrau i'r dwyrain o ganol y bont dros y rheilffordd i Gyffordd Twnnel Hafren (ffin orllewinol y consesiwn) hyd at ganolbwynt pont Caldicot Road y B4245.

Y darn o'r brif gerbytffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o ganolbwynt pont Vinegar Hill hyd at bwynt 740 o fetrau i'r dwyrain o ganol y bont dros y rheilffordd i Gyffordd Twnnel Hafren (ffin orllewinol y consesiwn).

**ATODLEN 4**
**Llain Galed**

Y darn o lain galed y gerbytffordd tua'r dwyrain o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 23 hyd at bwynt 740 o fetrau i'r dwyrain o ganol y bont dros y rheilffordd i Gyffordd Twnnel Hafren (ffin orllewinol y consesiwn).

Y darn o lain galed y gerbytffordd tua'r gorllewin o bwynt 740 o fetrau i'r dwyrain o ganol y bont dros y rheilffordd i Gyffordd Twnnel Hafren (ffin orllewinol y consesiwn) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 23.